

Gwybod Eich Hawliau

Eich canllaw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Anabledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gwybod eich hawliau Defnyddio eich hawliau Byw eich hawliau**'.

Mawrth 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 29**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Anabledd Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.disabilitywales.org/cy

E-bost: info@disabilitywales.org

Ffôn: 02920 887 325



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthon ni beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, [cliciwch yma](#).

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad	4
Ynglŷn â'n gwaith.....	5
Deddf Cydraddoldeb 2010.....	7
Gwybod eich hawliau.....	9
Nodweddion gwarchodedig	9
Mathau o wahaniaeth.....	11
Gweithredu cadarnhaol a gwahaniaethu cadarnhaol.....	16
Y Ddeddf Cydraddoldeb a grwpiau.....	17
Ydych chi'n cael eich diogelu gan y Ddeddf Cydraddoldeb?..	18
Defnyddio eich hawliau.....	19
Mynd i'r llys.....	19
Mynd i'r llys sirol.....	21
Mynd i dribiwnlys.....	23
Stori bywyd go iawn.....	25
Rhagor o Wybodaeth	27
Geiriau anodd.....	29

Cyflwyniad



Ysgrifennwyd y llyfryn hwn gan **Anabledd Cymru**.



Mae'r llyfryn hwn ar gyfer Pobl Anabl a Sefydliadau Pobl Anabl.



Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Ond nid cyngor cyfreithiol ywe.



Mae cyfanswm o 8 llyfryn. Mae gan bob llyfryn wybodaeth am gyfraith wahanol.



Roedd y llyfryn hwn yn gywir ym mis Ionawr 2021. Ond gallai **Deddf Cydraddoldeb 2010** newid yn y dyfodol.

Ynglŷn â'n gwaith



Rydym yn gweithio'n galed i ddiogelu **hawliau** Pobl Anabl.



Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae **hawliau** yn dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.


Mae gan bobl eraill **hawliau** hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.



Yn 2020, gofynnwyd i Bobl Anabl yng Nghymru am eu **hawliau**.



Dywedodd llawer o Bobl Anabl wrthon ni nad oedd eu **hawliau** yn cael eu diogelu'n dda yng Nghymru.



Roedd llawer o Bobl Anabl yn teimlo na fyddai hyn yn gwella yn y dyfodol.



Rydyn ni am i Bobl Anabl wybod a defnyddio eu **hawliau**. Ac i deimlo'n ddiogel.



Fe wnaethon ni ysgrifennu'r 8 llyfryn hyn i helpu.

Deddf Cydraddoldeb 2010



Ysgrifennwyd Deddf Cydraddoldeb 2010 i wneud cyfreithiau **cydraddoldeb** yn haws eu deall.

Cydraddoldeb



Mae **cydraddoldeb** yn golygu trin pobl yn deg.



Byddwn ni'n galw **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn **Y Ddeddf** yn fyr.



Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn dweud bod rhai pobl yn dioddef o **wahaniaethu** yn fwy nag eraill.



Gwahaniaethu yw pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.



Mae gan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** restr o bethau sy'n gwneud pobl mewn mwy o berygl o **wahaniaethu**. Ac mae hynny'n cael ei ddiogelu gan y gyfraith.



Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn galw'r pethau hyn yn **nodweddion gwarchodedig**.



Mae **nodweddion gwarchodedig** yn bethau am bobl sy'n cael eu gwarchod gan y gyfraith.

Gwybod eich hawliau

Nodweddion gwarchodedig

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn amddiffyn pobl â **nodweddion gwarchodedig** pan fyddan nhw:



- yn y gwaith



- yn defnyddio nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau



- mewn addysg.



Y **nodweddion gwarchodedig** yw:

- Anabledd
- Rhyw (os ydych chi'n ddyn neu'n fenyw)



- Hil
- Oedran



- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd rhywiol (bod yn syth, hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol)



- Ailbennu rhywedd (os yw rhywun wedi newid ei ryw o'r un y cawson nhw eu geni ag ef)



- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Bod yn feichiog neu gael plentyn.

Mathau o wahaniaethu

Mae'r mathau canlynol o **wahaniaethu** yn anghyfreithlon o dan **Deddf Cydraddoldeb 2010**.

Gwahaniaethu uniongyrchol



Mae hyn yn golygu cael eich trin yn waeth nag eraill oherwydd bod gennych chi **nodwedd warchodedig**.

Er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn dweud wrthydd chi na allwch chi ddefnyddio gwasanaeth oherwydd eich bod chi'n anabl.

Gwahaniaethu anuniongyrchol



Mae hyn yn golygu bod pethau'n anoddach i chi oherwydd bod gennych chi **nodwedd warchodedig**.

Er enghraifft, os oes gennych chi anabledd dysgu, efallai y bydd rhai dogfennau'n rhy anodd eu darllen.



Neu os ydych chi'n ddefnyddiwr cadair olwyn, efallai na fydd desg uchel mewn derbynfa yn **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn golygu rhywbeth sy'n hawdd ei gyrraedd neu ei ddefnyddio.

Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd



Mae hyn yn golygu cael eich trin yn annheg oherwydd rhywbeth i'w wneud â'ch anabledd.

Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n edrych, yn ymddwyn neu'n swnio'n wahanol oherwydd eich anabledd.



Mae'n anghyfreithlon **gwahaniaethu** yn eich erbyn am hyn.

Gwahaniaethu yn ôl canfyddiad



Mae hyn yn golygu pan fydd rhywun yn **meddwl** bod gennych chi **nodwedd warchodedig**. Ac maen nhw'n **gwahaniaethu** yn eich erbyn chi o'i herwydd.

Er enghraifft, efallai y cewch chi eich trin yn wahanol oherwydd bod rhywun yn **meddwl** eich bod chi'n Berson Anabl.

Gwahaniaethu yn ôl cysylltiad



Mae hyn yn golygu cael eich trin yn annheg os oes gan rywun rydych chi'n ei adnabod **nodwedd warchodedig**.

Er enghraifft, efallai y cewch chi eich trin yn annheg oherwydd eich bod chi'n gofalu am aelod anabl o'r teulu.

Aflonyddu



Mae hyn yn golygu cael eich bwllo neu rywun yn pigo arnoch chi oherwydd **nodwedd warchodedig**.

Er enghraifft, gallai **darparwr gwasanaeth aflonyddu** ar Berson Anabl.



Ond os bydd rhywun ar y stryd yn **aflonyddu** arnoch chi, nid yw hyn yn anghyfreithlon yn **Neddf Cydraddoldeb 2010**. Ond mae'n anghyfreithlon o dan gyfreithiau eraill.

Aflonyddu Trydydd Parti



Mae hyn yn golygu bod yn destun aflonyddu yn y gwaith am fod â **nodwedd warchodedig**.

Er enghraifft, gallai cwsmer yn y gwaith **aflonyddu** arnoch chi am fod yn Berson Anabl.

Rhaid i'ch cyflogwr eich diogelu rhag hyn.

Erledigaeth



Mae hyn yn golygu cael eich trin yn waeth nag o'r blaen oherwydd eich bod chi wedi cwyno am **wahaniaethu**.



Neu am eich bod chi wedi helpu rhywun sydd â **nodwedd warchodedig** i gwyno.

Peidio â gwneud addasiadau rhesymol



Mae **addasiadau rhesymol** yn newidiadau y gall pobl eu gwneud i helpu Pobl Anabl.

Er enghraifft, gosod ramp fel y gall defnyddiwr cadair olwyn fynd i mewn i adeilad.



Mae peidio â gwneud **addasiadau rhesymol** yn anghyfreithlon o dan **Deddf Cydraddoldeb 2010**.

Gweithredu cadarnhaol a gwahaniaethu cadarnhaol



Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn dweud y gall pobl â **nodweddion gwarchodedig** elwa o **weithredu cadarnhaol**.



Mae **gweithredu cadarnhaol** yn golygu rhoi'r un cyfleoedd i bawb. Er enghraifft, mae helpu Person Anabl gyda chais am swydd yn **weithred gadarnhaol**.



Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn dweud y gall Pobl Anabl elwa o **wahaniaethu cadarnhaol** hefyd.



Gwahaniaethu cadarnhaol yw pan fydd Person Anabl yn cael ei drin yn well na pherson nad yw'n anabl.



Mae hyn er mwyn osgoi iddyn nhw gael eu trin yn waeth.

Y Ddeddf Cydraddoldeb a grwpiau



Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn berthnasol i unrhyw grŵp o bobl:

- sydd â 25 aelod neu fwy
- sydd â rheolau i'w dilyn
- nad yw'n fusnes nac yn sefydliad proffesiynol.



Mae hyn yn cynnwys **Sefydliadau Pobl Anabl**.



Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** hefyd yn berthnasol i glybiau lle rydych yn talu ffi. A lle gall unrhyw yn ymuno.



Fodd bynnag, mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn **caniatáu** grwpiau sydd â **nodwedd warchodedig** yn unig.

Er enghraifft, grwpiau Pobl Anabl yn unig. Neu grwpiau menywod yn unig.

Ydych chi'n cael eich diogelu gan y Ddeddf Cydraddoldeb?



Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn diogelu pob Person Anabl.

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn dweud eich bod chi'n anabl os oes gennych chi broblem gorfforol neu feddyliol sydd:



- yn ei gwneud hi'n llawer anoddach i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd
- rydych chi wedi cael y mater hwn am fwy na 12 mis.



Dysgwch fwy am yr hyn mae'r gyfraith yn ei gyfrif fel anabl yma:

assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/570382/Equality_Act_2010-disability_definition.pdf

Defnyddiwch eich hawliau

Mynd i'r llys



Os ydych yn dioddef o **wahaniaethu** sydd wedi'i restru yn **Neddf Cydraddoldeb 2010**, gallwch chi fynd i'r llys.



Gallwch chi fynd ag unigolion, sefydliadau neu **gyrff cyhoeddus** i'r llys.



Mae **cyrff cyhoeddus** yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.



Mae mynd ag achos i'r llys yn ffordd dda o atal **gwahaniaethu**. Ac i atal sefydliadau rhag torri gwasanaethau i Bobl Anabl.

Ond gall mynd i'r llys fod yn anodd:



- mae fel arfer yn cymryd amser hir



- gall gostio llawer o arian



- gallai ddifetha'r berthynas gyda phwy bynnag y byddwch chi'n mynd â nhw i'r llys.



Dim ond os ydych chi wedi rhoi cynnig ar bopeth arall yn gyntaf y dylech fynd i'r llys.

Mynd i'r llys sirol



Ni ddylai sefydliadau sy'n darparu nwyddau, cyfleusterau na gwasanaethau **wahaniaethu** yn eich erbyn.



Os byddan nhw'n gwneud hynny, gallwch chi fynd â nhw i'r **Llys Sirol**.



Bydd angen i chi benderfynu ydych chi am gael cyfreithiwr. Neu wneud popeth eich hun.



Os nad ydych chi'n defnyddio cyfreithiwr, rhaid i chi gael yr holl waith papur at ei gilydd eich hun. A gwneud copïau o bopeth.



Gallech chi hefyd ddod o hyd i straeon am achosion eraill fel eich un chi. Gallai hyn helpu eich achos.



Efallai y byddwch chi'n gallu cael **Cymorth Cyfreithiol** os byddwch chi'n mynd i'r llys. Ond byddan nhw'n gwirio i weld a oes gennych chi arian arall yn gyntaf.



Efallai y bydd y darparwr gwasanaeth yn cynnig **setliad** i chi. Mae **setliad** yn golygu arian maen nhw'n ei roi i chi i atal yr achos. Cyn iddo fe fynd i'r llys.



Dylech chi ofyn i gyfreithiwr cyn i chi gymryd **setliad**. Gallwch chi gael cyngor cyfreithiol am ddim os nad oes gennych chi gyfreithiwr.



Os ewch i'r Llys Sirol a cholli:

- efallai y bydd yn rhaid i chi dalu costau
- gallwch chi apelio a mynd i lys arall.

Os ewch i'r Llys Sirol ac ennill:



- gall y **Llys Sirol** ddweud wrth y darparwr gwasanaeth am roi arian i chi
- gall y **Llys Sirol** ddweud wrth y darparwr gwasanaeth am roi'r gorau i **wahaniaethu**.

Mynd i dribiwnlys



Os bydd myfyriwr mewn ysgol yn profi **gwahaniaethu** yn ei erbyn, gallan nhw fynd i **Dribiwnlys**.



Yr enw ar hyn yw **Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd Haen Gyntaf**.



Os bydd person anabl yn profi **gwahaniaethu** yn y gwaith, gallan nhw fynd i **Dribiwnlys Cyflogaeth**.



Mae **tribiwnlysoedd** fel arfer yn eithaf hamddenol.



Ond efallai y byddwch ch'n dal i fod eisiau i rywun eich helpu i baratoi ar ei gyfer.

Stori bywyd go iawn

Myfyriwr Prifysgol Anabl yn erbyn Prifysgol Yng Nghymru yn 2013



Y stori

Dechreuodd myfyriwr anabl mewn prifysgol. Byddwn ni'n ei alw'n **AB**.



Adroddodd **AB** am faterion diogelwch tân yn llyfrgell y brifysgol.

Sylwodd yn y llyfrgell:



- bod y lifft wedi torri
- nid oedd yn hygyrch i Bobl Anabl
- roedd yn anodd i Bobl Anabl ddianc mewn tân
- nid oedd yn ddiogel i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Pan aeth larwm tân i ffwrdd, gadawyd **AB** ar ei ben ei hun ar risiau.



Cwynodd **AB** a gofynnodd am gyfarfod gyda'r staff. Ni ddigwyddodd y cyfarfod erioed.



Beth ddigwyddodd nesaf

Fe wnaeth **AB** lansio cwyn yn erbyn y Brifysgol.



Cysylltodd AB â'r **Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi Cydraddoldeb**. Ac elusen o Gaerdydd o'r enw **Race Equality First**.



Fe wnaethan nhw helpu **AB** i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y Brifysgol am **wahaniaethu**.



Cytunodd **AB** i setlo'r achos gyda'r Brifysgol. Ac fe wnaeth dderbyn £20,000 mewn iawndal. **Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr achos yma:**

www.disabilitynewsservice.com/disabled-student-wins-20k-after-university-built-library-it-knew-would-breach-dda/

Rhagor o Wybodaeth

Fersiwn Hawdd ei Ddeall **Llywodraeth y DU** o Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/85039/easy-read.pdf.

Canllaw **Hawliau Anabledd y DU** i Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

www.disabilityrightsuk.org/equality-act-and-disabled-people.

Cyngor ar Bopeth ar sut mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd ac yn effeithio ar bobl anabl:

www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Gwaith/gwahaniaethu-yn-y-gwaith/gweld-a-ywn-wahaniaethu/gweld-a-ydych-chin-anabl-o-dan-y-Ddeddf-Cydraddoldeb/.

Canllawiau'r **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** i ddefnyddwyr gwasanaeth am eu hawliau o dan **Deddf Cydraddoldeb 2010**:

www.equalityhumanrights.com/cy/advice-and-guidance/canllaw-craidd-defnyddwyr-gwasanaeth.

Gwasanaeth Cymorth Ymgynghorol Cydraddoldeb
Yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar faterion gwahaniaethu a hawliau dynol. Yn cynnwys cyngor ar yr hyn mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn ei ddweud a sut mae'n berthnasol i bobl anabl. Maen nhw hefyd yn darparu llawer o lythyrau templed.

Gwefan: www.equalityadvisoryservice.com/
Cyfeiriad: Gwasanaeth Cymorth Ymgynghorol
Cydraddoldeb RHADBOST,
FPN4431
Ffôn: 0808 800 0082
Ffôn testun: 0808 800 0084

Os ydych chi'n Fyddar neu'n drwm eich clyw, gallwch chi ffonio RAD drwy eu porth gwe-gamera yn:
www.royaldeaf.org.uk/webcam/

Gallwch chi siarad ag ymgynghorydd yn **Iaith Arwyddion Prydain** neu sgwrs destun.

Maen nhw hefyd yn rhedeg llinell gymorth sy'n cael ei hariannu gan y llywodraeth:

Ffôn: 0800 444 205
Ffôn testun: 0800 444 206

Geiriau anodd

Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.

Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pobl yn deg.

Gwahaniaethu

Gwahaniaethu yw pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Hygyrch

Mae hygyrch yn golygu rhywbeth sy'n hawdd ei gyrraedd neu ei ddefnyddio.

Hawliau

Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio. Mae hawliau'n dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael.

Nodweddion gwarchodedig

Mae nodweddion gwarchodedig yn bethau am bobl sy'n cael eu gwarchod gan y gyfraith.

